

**GORCHYMYN PRYNU GORFODOL
ATODOL GWEINIDOGION CYMRU
(CEFNFFORDD ABERGWAUN I
FANGOR (A487) (FFORDD OSGOI
CAERNARFON A BONTNEWYDD)) 201-**

**PRYNU TIR A HAWLIAU NEWYDD YN
ORFODOL CAERNARFON I
BONTNEWYDD**

AT:

O:

1. Mae Gweinidogion Cymru wedi paratoi, ar ffurf drafft, Gorchymyn Prynu Gorfodol Atodol Gweinidogion Cymru (Cefnffordd Abergwaun i Fangor (A487) (Ffordd Osgoi Caernarfon a Bontnewydd)) 201-, o dan adrannau 239, 240, 246, 250 a 260 o Ddeddf Priffyrdd 1980 ac o dan adran 2 o Ddeddf Caffael Tir 1981, a pharagraff 1(1)(b), (3) a (4) o Ran 1 o Atodlen 2 iddi. Mae Gweinidogion Cymru ar fin gwneud y Gorchymyn Atodol hwn, ac os gwneir, bydd y Gorchymyn Atodol yn awdurdodi Gweinidogion Cymru i brynu'n orfodol y tir a'r hawliau newydd a ddisgrifir isod er mwyn:-

- (a) adeiladu cefnffordd yr A487 newydd yng Nghymuned Menai Caernarfon yn Sir Gwynedd, yn unol â Gorchymyn Cefnffordd Abergwaun i Fangor (A487) (Ffordd Osgoi Caernarfon a Bontnewydd a Thynnu Statws Cefnffordd) 201-;
- (b) adeiladu a gwella priffyrdd yn y Cymuned a enwyd yn y Sir a enwyd, yn unol â Gorchymyn Cefnffordd Abergwaun i Fangor (A487) (Ffordd Osgoi Caernarfon a Bontnewydd) (Ffyrdd Ymyl) 201-; ac
- (c) lliniaru unrhyw effeithiau andwyol ar eu hamgylchoedd, a achosir gan fodolaeth unrhyw rai o'r priffyrdd y cynigir eu gwella, neu gan y defnydd ohonynt.

2. Gellir gweld copi o'r Gorchymyn drafft ac o'r map cysylltiedig ar bob adeg resymol o 14 Mehefin 2017 yn y mannau canlynol;

- Swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ;
- Swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Cyffordd

**THE WELSH MINISTERS (THE
FISHGUARD TO BANGOR TRUNK
ROAD (A487) (CAERNARFON AND
BONTNEWYDD BYPASS)
SUPPLEMENTARY COMPULSORY
PURCHASE ORDER
201-**

**COMPULSORY PURCHASE OF LAND
AND NEW RIGHTS CAERNARFON TO
BONTNEWYDD**

TO:

OF:

1. The Welsh Ministers have prepared in draft The Welsh Ministers (The Fishguard to Bangor Trunk Road (A487) (Caernarfon and Bontnewydd Bypass) Supplementary Compulsory Purchase Order 201-, under sections 239, 240, 246, 250 and 260 of the Highways Act 1980 and under section 2 of, and paragraph 1(1)(b), (3) and (4) of Part 1 of Schedule 2 to, the Acquisition of Land Act 1981. The Welsh Ministers are about to make this Supplementary Order and if made the Supplementary Order will authorise the Welsh Ministers to purchase compulsorily the land and new rights described below for the purpose of:-

- (a) the construction of the new A487 trunk road in the Community of Menai Caernarfon in the County of Gwynedd, in pursuance of The Fishguard to Bangor Trunk Road (A487) (Caernarfon and Bontnewydd Bypass and De-Trunking) Order 201-;
- (b) the construction and improvement of highways, in the said Community, in the said County, in pursuance of The Fishguard to Bangor Trunk Road (A487) (Caernarfon and Bontnewydd Bypass (Side Roads) Order 201-; and
- (c) the mitigation of any adverse effects which the existence or use of certain of the highways proposed to be improved will have on the surroundings thereof.

2. A copy of the draft Order and accompanying map may be seen at all reasonable hours from 14 June 2017 at the following venues;

- Welsh Government Offices, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ;
- Welsh Government Offices, Llandudno

Llandudno, LL31 9RZ;

- Cyngor Gwynedd, Stryd y Jêl, Caernarfon LL55 1SH;
- Llyfrgell Caernarfon, Allt Pafiliwn, Caernarfon LL55 1AS.

3. Os na wneir gwrthwynebiad perthnasol (fel y'i diffinnir ym mharagraff 4(6) o Atodlen 1 i Ddeddf Caffael Tir 1981) neu os tynnir yn ôl bob gwrthwynebiad o'r fath, neu os bodlonir Gweinidogion Cymru fod pob gwrthwynebiad o'r fath yn ymwneud â materion iawndal y gall y Tribiwnlys Uchaf (Siambr Tiroedd) ymdrin â hwy, caiff Gweinidogion Cymru wneud y Gorchymyn Prynu Gorfodol Atodol gydag addasiadau neu hebddynt.

4. Mewn unrhyw achos arall, pan fo gwrthwynebiad perthnasol wedi ei wneud a heb ei dynnu yn ôl na'i ddiystyru, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru, cyn gwneud y Gorchymyn, gymryd un o'r camau canlynol:

- (i) peri bod Ymchwiliad Lleol Cyhoeddus yn cael ei gynnal;
- (ii) rhoi cyfle i'r gwrthwynebydd/ gwrthwynebwy'r ymddangos gerbron person a benodir at y diben hwnnw a chael gwrandawriad ganddo ; neu
- (iii) gyda chydysyniad pob gwrthwynebydd, dilyn gweithdrefn o gyflwyno sylwadau ysgrifenedig.

5. Wedyn, ar ôl ystyried y gwrthwynebiad(au) ac adroddiad y person a gynhaliodd yr Ymchwiliad neu'r gwrandawriad neu a fu'n ystyried y sylwadau ysgrifenedig, caiff Gweinidogion Cymru wneud y Gorchymyn gydag addasiadau neu hebddynt.

6. Rhaid gwneud unrhyw wrthwynebiad i'r Gorchymyn drafft mewn ysgrifen i'r Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ cyn 05 Gorffennaf 2017 a dylai nodi enw'r Gorchymyn, y cyfeirnod qA1225530, sail y gwrthwynebiad a chyfeiriad y gwrthwynebydd a'i fuddiannau yn y tir. Os byddwch yn dymuno gwrthwynebu, cefnogi neu wneud sylwadau, bydd y tîm prosiect yn ystyried eich gohebiaeth ac fe all y bydd angen inni ymgynghori â phobl a sefydliadau y tu allan i Lywodraeth Cymru. Fel rhan o'r broses o ymgynghori ag eraill, caniateir inni drosglwyddo gwybodaeth iddynt, gan gynnwys gwybodaeth yr ydych wedi ei rhoi i ni, a'ch data personol. Er hynny, ni fyddwn yn datgelu'ch manylion personol ond pan fo hynny'n angenrheidiol i'n galluogi i ymdrin â materion yr ydych wedi tynnu'n sylw atynt. Pan fydd Cynllun Cefnffordd yn dod yn destun Ymchwiliad Cyhoeddus (YC), bydd pob gohebiaeth yn cael ei chopio i Arolygydd yr

Junction, LL31 9RZ;

- Gwynedd Council, Shirehall Street, Caernarfon LL55 1SH;
- Caernarfon Library, Pavilion Hill, Caernarfon LL55 1AS.

3. If no relevant objection (as defined in paragraph 4(6) of Schedule 1 to the Acquisition of Land Act 1981) is made, or if all objections so made are withdrawn, or if the Welsh Ministers are satisfied that every objection so made relates to matters of compensation which can be dealt with by the Upper Tribunal (Lands Chamber), the Welsh Ministers may make the Supplementary Compulsory Purchase Order with or without modifications.

4. In any other case where a relevant objection has been made which has not been withdrawn or disregarded the Welsh Ministers are required, before making the Order, either to—

- (i) cause a Public Local Inquiry to be held;
- (ii) afford to the objector(s) an opportunity of appearing before and being heard by a person appointed by the Welsh Ministers for the purpose; or
- (iii) with the consent of all the objector(s), follow a written representations procedure.

5. The Welsh Ministers may then, after considering the objection(s) and the report of the person who held the Inquiry or hearing or considering the written representations, make the Order with or without modifications.

6. Any objection to the draft Order must be made in writing to the Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ before 05 July 2017 and should state the title of the Order, the reference qA1225530, the grounds of objection and the objector's address and interests in the land. Should you wish to object, support or make representations, your correspondence will be considered by the project team and we may need to consult with people and organisations outside of the Welsh Government. As part of the process of consulting with others we may pass information to them, including information you have given us and your personal data. We will however, only disclose your personal details where it is necessary to do so to enable us to deal with issues you have brought to our attention. Where a Trunk Road Scheme becomes the subject of a Public Inquiry (PI), all correspondence is copied to the Inspector of the Inquiry and is kept in

Ymchwiliad ac fe'i cedwir yn Llyfrgell yr YC a bydd ar gael i'r cyhoedd.

the PI Library and is publicly available.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn Atodol a'r Hysbysiad yn www.llyw.cymru (dewiser 'Deddfwriaeth', 'Is-ddeddfwriaeth', 'Deddfwriaeth Ddrafft', 'Offerynnau Anstatudol Drafft', 'Gorchmynion Ffyrdd Ymyl a Gorchmynion Prynu Gorfodol yn unol â'r Ddeddf Priffyrdd').

A copy of the Supplementary Order and Notice can be viewed at www.gov.wales (select 'Legislation', 'Subordinate legislation', 'Draft Legislation', 'Draft Non-Statutory Instruments', 'Highways Act Side Roads and Compulsory Purchase Orders').

Gellir cael copi o'r Hysbysiad hwn mewn print brasach oddi wrth y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from the Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

DISGRIFIAD O'R TIR AC O'R HAWLIAU NEWYDD

DESCRIPTION OF THE LAND AND THE NEW RIGHTS

SYLWER: Dynodir y tir a gynhwysir ym mhob eitem isod ar y map y cyfeirir ato yn y Gorchymyn drafft gan ddefnyddio'r rhif neu'r rhifau sydd gyferbyn â'r eitem honno isod.

NOTE: The land comprised in each item below is identified on the map referred to in the draft Order by means of the number or numbers against that item below.

YNG NGHYMUNED MENAI CAERNARFON YN SIR GWYNEDD

IN THE COMMUNITY OF MENAI CAERNARFON IN THE COUNTY OF GWYNEDD

Rhan o dir porfa cyfagos i Lôn Fynnon Fair bresennol (priffordd ddi-ddosbarth), i'r de o gyffordd Cefnffordd yr A487 bresennol ym Mhlas Menai. (Plotiau 9/5s & 9/5t).

Part of the pasture land adjacent to the existing Fynnon Fair Lane (unclassified highway), to the South of the existing A487 Trunk Road junction at Plas Menai. (Plots 9/5s & 9/5t).



M D BURNELL
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru



M D BURNELL
Transport
Welsh Government